

Portread o gyfoeth a gwerth yn economi amaethyddol Dyffryn Ogwen ar derfyn y ddeunawfed ganrif.

Rhagymadrodd

Archif ewyllysiau ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Esgobaeth Bangor 1576 i 1858, yw ffynhonnell yr erthygl hon, ac yn benodol yr ewyllysiau hynny sy'n perthyn i ddau blwyf yn Nyffryn Ogwen sef Llanllechid a Llandygái. Bwriad yr erthygl yw defnyddio'r ewyllysiau i ddarganfod pa mor effeithiol oedd y drefn amaethyddol a arferid yn yr ardal yn ystod cyfnod cymharol fyr ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'r cyfnod yn un tra arwyddocaol yn hanes Dyffryn Ogwen oherwydd mae'n cwmpasu cyfnod arglwyddiaeth Richard Pennant, Arglwydd cyntaf Stad y Penrhyn yn Llandygái. Gwnaeth y gŵr hwn drwy ei weledigaeth, ei ddycnwch a'i gyfoeth newidiadau pellgyrhaeddol i economi y rhan hon o ogledd orllewin Gwynedd drwy ddatblygu chwarel lechi Cae Braich y Cafn, a thrwy hynny wyrdroi holl strwythur cymdeithasol yr ardal gyfan. Pan sefydlodd Pennant ei berchnogaeth ar Stad y Penrhyn yn 1765 drwy briodi Anne Susannah, merch y Cadfridog Warburton, yr oedd y Stad wedi'i rhannu rhwng dwy adain o'r un teulu ac roedd mewn cyflwr economaidd dirwasgedig. Ei gam adeiladol cyntaf yn 1768 oedd gorchymyn gwneud arolwg cyflawn o'i etifeddiaeth, tasg a wnaed ar ei ran gan George Leigh, trefesurydd o Norwich. Cyflwynodd ef adolygiad manwl o'r Stad sy'n rhestru pob daliadaeth, enw pob deiliad, maint y sefydliad ac enw pob cae a oedd yn gysylltiedig â hwy, gan ymgorffori'r holl ymchwil mewn tri map sy'n

cynnwys plwyfi Llanllechid, Llandygái ac ardal Nant Ffrancon i Nant y Benglog. Trafodwyd agweddau ar Arolwg 1768 mewn erthygl flaenorol (Williams a Williams 2011), ond mae elfennau ohoni hefyd yn berthnasol i'r erthygl hon oherwydd gellir cysylltu manylion am gyfran o'r daliadau â nifer helaeth o'r ewyllysiau sy'n archif y Llyfrgell Genedlaethol, a thrwy hynny gyflwyno darlun pur ddadlennol am gyflwr economi amaethyddol Stad y Penrhyn yn ystod cyfnod arglwyddiaeth Richard Pennant.

Dewiswyd 210 o ewyllysiau a phrofebau o'r cyfnod rhwng 1650 a 1825 a oedd yn eiddo i unigolion a chanddynt gyfeiriad penodol yn y ddau blwyf ac, o ganlyniad, gellir eu cysylltu yn uniongyrchol â'r sefydliadau a restrir yn yr Arolwg. Mae 42 o'r ewyllysiau yn eiddo i unigolion a gofnodwyd fel deiliaid sefydliadau sydd ar restr yr Arolwg yn 1768, ffaith a gaiff sylw manylach maes o law. Perthyn y mwyafrif o'r ewyllysiau i amaethwyr, ond mae'r sampl hefyd yn cynnwys rhai gwragedd gweddwon ac, er mwyn cymharu, nifer fechan o ewyllysiau unigolion a oedd mewn galwedigaethau eraill. Y ddolen gysylltiol rhyngddynt oll yw fod pob un yn berchen ar anifeiliaid ac felly yn gyfrannog o'r gyfundrefn amaethyddol. Mae'r ewyllysiau yn gyforiog o wybodaeth am natur y drefn amaethyddol. Ynddynt fe restrir manylion ynghylch pa fath o anifeiliaid a oedd ym meddiant yr unigolyn; maint y stoc ac amrediad oedran y stoc a'u gwerth ar farwolaeth y perchennog. O'r manylion hyn gellir cael bras amcan o faint disgwylidig incwm blynyddol y person ac, yn fwy penodol, fe nodir beth oedd gwerth terfynol y stad ar farwolaeth yr unigolyn¹. Mantais ychwanegol yr ewyllysiau yw fod modd eu trefnu yn ôl eu cyfnod, neu fel adlewyrchiad o faint y sefydliad, neu o ran gwerth ariannol y deiliaid. Un anfantais yw na cheir ynddynt fanylion amgylchiadau personol yr ymadawedig a

¹ Noder fod yr erthygl hon yn seiliedig ar y drefn ariannol a fodolai cyn 1971.

fyddai'n fodd i egluro beth oedd sail llwyddiant neu aflwyddiant economaidd yr unigolyn, fel y daw'n amlwg yn ystod y drafodaeth sy'n dilyn. Felly, i grynhoi, o gyfuno tystiolaeth yr Arolwg â'r ewyllysiau gellir sefydlu beth oedd sail y gyfundrefn amaethyddol, a thrwy hynny fesur ei gwerth yn cynnal y rhai a oedd yn ei meithrin fel amaethwyr ac, yn olaf, gellir gwerthuso ei chyfraniad er lles y gymdeithas yn gyffredinol. Gan gofio fod yr astudiaeth yn blwyfol iawn ei gorwelion daearyddol a'i bod yn gyfyngedig i gyfnod byr o amser gobeithir, drwy fanylu ar amgylchiadau amaethwyr megis y rhai a drafodir isod, gyfrannu peth gwybodaeth ychwanegol at y darlun cyfansawdd o'r gyfundrefn amaethyddol yng Nghymru ar ddiwedd y ddeunawfed a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Cyn manylu ar yr ewyllysiau dylid nodi fod ardal yr astudiaeth yn dra amrywiol ei thirwedd ddaearyddol a'r dirwedd honno sydd, i raddau helaeth, yn rheoli'r drefn amaethyddol yn y gymdogaeth. I'r gogledd mae ffiniau'r ddau blwyf yn dilyn iseldir Afon Menai ac i gyfeiriad y de yn agor i ddyffryn afon Ogwen a'i llethrau ymylol ac mae cwrs yr afon o'i tharddiad yn Llyn Ogwen yn ffurfio ffin naturiol rhwng y ddau blwyf. Manteisia ffermydd ardal glannau'r Fenai ar y tiroedd gorau eu hansawdd, er bod amryw o lecynnau gwlyb a chorsiog, megis y Wern Fawr ger Cororion ym mhlwyf Llandygái, yn britho'r iseldir. Ardal o sefydliadau sefydlog a geir yn yr iseldir, sy'n cynnwys rhai ffermydd sylweddol eu maint yn gymysg â nifer o fân dyddynnod sy'n llenwi'r bylchau cydrhwng y daliadau mwyaf eu maint. Yn ardal Tre-garth mae patrwm tra gwahanol yn amlygu ei hun mewn cyfres o dyddynnod bychan, clos eu gwead, a sefydlwyd ar gyrion ucheldir Moelyci, gyda nifer o fythynnod mewn perthynas â gerddi bychan ac ambell

dyddyn wedi'u trefnu i ddilyn llwybrau llinynnol ar y llethrau sy'n dringo i gyfeiriad gweunydd agored Mynydd Llandygái. Nodwedd amlycaf llawer o ffermydd plwyf Llanllechid ar y llaw arall yw'r modd y maent yn ymledu i gynnwys ffriddoedd ymylol ar ucheldir mynyddig dwyrain y plwyf, megis yn ardaloedd Gerlan, Llanllechid ac i'r dwyrain o Dal-y-bont. Mae nifer o'r ffriddoedd hyn yn enfawr gan yn aml ddyblu a threblu maint y sefydliad gwreiddiol. Mae rhan ddeheuol yr ardal yn cynnwys dyffryn Nant Ffrancon a dyffryn afon Llugwy, sef yr ardal sy'n ymestyn o Nant y Benglog i Gapel Curig. Yn yr ardal hon mae'r rhelyw o'r ffermydd yn enfawr eu maint ac yn ymestyn i rannau o fynydd-dir mwyaf gerwin Eryri. Felly, mewn pellter o gwta 12 cilomedr mae tirwedd yr ardal yn codi o iseldir min Menai i uchder o 1000 metr yn y mynyddoedd gan greu amodau amgylcheddol pur wahanol, pwnc a gaiff sylw manylach yn y drafodaeth sy'n dilyn.

Mae gan yr Arolwg un gwendid pwysig sy'n berthnasol yn hyn o beth. Dengys mapiau'r Arolwg fod perchnogaeth y Penrhyn yn ddifwlch yn y rhannau hynny o iseldir plwyf Llandygái oedd wedi'u datblygu, ond bod cyfran helaethaf o weunydd agored ucheldir Moelyci, Mynydd Llandygái a Gwaun Gynfi yn aros heb eu hamgáu. O ganlyniad, gellir barnu fod yr Arolwg yn gofnod pur gynhwysfawr o anheddau'r plwyf yn y rhannau a ddatblygwyd. Mae'r darlun ym mhlwyf Llanllechid yn dra gwahanol oherwydd yno yr oedd rhannau helaeth o'r plwyf yn parhau mewn dwylo annibynnol, naill ai yn stadau sylweddol megis Coetmor, neu yn dalpiau digyswllt, llai eu maint, a berthynai i nifer o unigolion. Ffactor arall hollbwysig oedd fod y mynydd-dir sy'n ffurfio ffin ddwyreiniol y plwyf yn aros yn dir y Goron ac felly allan o gyrraedd gafael y Penrhyn. O ganlyniad,

dim ond y sefydliadau ar diroedd y Penrhyn a gynhwyswyd yn yr Arolwg ac felly mae'n gofnod anghyflawn o ddisbarthiad yr anheddau. Amlygir hyn gan ewyllysiau unigolion o ffermydd a leolwyd yn nifer o'r bylchau, megis Tyddyn Hendre(1745), Coetmor (1725) a Coed Ucha (1815) ar dir stad Coetmor; Ty'n Slattars (1785), Tyddyn Du (1770), Llwyn Penddu (1803) a Cilfoden (Cilhafoden) (1776) ar dir y Goron; Tan y bwlch (1758) Tyddyn y Fedw (1672), Tai'n y Coed (1780) a Glan y Môr Isaf (1799) ar diroedd annibynnol, a Tal Llyn Ogwen (1725) fel rhan o Nant Ffrancon. Ar gyfer yr erthygl hon nifer weithredol y sefydliadau ar dir y Penrhyn yn Arolwg 1768 yw 206.

Gellir diffinio hyd a lled y drefn amaethyddol drwy ddyfynnu o ewyllys cynnar Maurice Owen, ffermwr oedd o leoliad anhysbys ym mhlwyf Llanllechid yn 1691.

Maurice Owen, Llanllechid, 1691, Inventory.

? oxen rated at	£ 4,4 0 0
12 cows + 1 bull	£ 2,4 0 0
13 bullocks rated at	£ 1,6 0 0
? heifers rated at	£ 9 0 0
9 yearlings rated at	£ 4 0 0
1 horse and mares rated at	£ 9 0 0
6 score sheep between ? and the lambs	£ 2,1 0 0
All barrels and firkins and all wooden vessels	£ 2 0 0
2 pogots of wheat	£ 2 0 0

5 pogots of ?	£ 3 0 0
35 pogots of barley	£17, 100
Oats threshed and unthreshed	£ 800
Household articles	£ 7,150
Money in	£ 2, 000
Total	£19, 113

Er gwaetha'r bylchau, mae perthnasedd y manylion yn amlwg. Mae'r gyfundrefn wedi'i gogwyddo tuag at fagu gwartheg stôr ar gyfer y farchnad gig, a hynny ar gynllun cylch o dair neu bedair blynedd i gynnwys lloi blwydd a heffrod a bustych yn eu llawn dwf. Sail y drefn oedd y gwartheg magu, gan gynnwys un tarw yn achos daliadaeth Maurice Owen. Mae pwyslais hefyd ar fagu defaid ac ŵyn, gyda bodolaeth praidd sylweddol ei faint yn ôl yr ystadegau, sy'n awgrymu mai ffermwr ar diroedd ucheldir Llanllechid oedd Maurice Owen. Fe roddir sylw hefyd i fesurau o wenith, haidd a cheirch sydd, mae'n debyg, yn gnydau grawn a dyfid yn bennaf fel porthiant i'r anifeiliaid ond hefyd ar gyfer gofynion y cartref. Mae'n amlwg o ystyried dyddiad cynnar yr ewyllys fod Maurice Owen yn ffermwr pur gysurus ei fyd gyda gwerth ei ystâd yn ymylu ar fod yn £200, swm enfawr i amaethwr ar droad yr ail ganrif ar bymtheg. Tybed a yw'r cyfoeth hwn yn debyg o ragdybio cyflwr economi amaethyddol ardal estynedig Dyffryn Ogwen yn ystod cyfnod arglwyddiaeth Richard Pennant bron ganrif yn ddiweddarach? Ac yn fwy penodol, sut y gellir mesur gwerth y gyfundrefn amaethyddol er mwyn asesu ei heffeithiolrwydd?

Mesur gwerth y gyfundrefn amaethyddol

Yn yr adran hon fe geisir sefydlu meini prawf i fesur gwerth ac effeithiolrwydd y gyfundrefn amaethyddol.

Yn Tabl 1 rhestrir gwerth terfynol 234 o ewyllysiau o blwyf Llanllechid yn unig. Fe'u trefnwyd ar y naill law, i ddangos categorïau gwerth yn esgyn o £0 hyd at symiau sy'n fwy na £200, ac ar y llaw arall nifer yr ewyllysiau fesul cyfnod o hanner can mlynedd rhwng 1650 a 1850 ac fe nodir nifer a chanran yr ewyllysiau ym mhob categori gwerth yn ystod y cyfnodau hyn. Dengys y data fod nifer yr unigolion sydd ag ewyllysiau a gwerth yr ewyllysiau hynny yn cynyddu yn sylweddol yn y cyfnod o 1750 ymlaen, ffaith nad yw efallai yn annisgwyl oherwydd nifer ychwanegol yr ewyllysiau yn y sampl, ond sydd hefyd yn cydnabod cynnydd mewn safon byw, yn arbennig felly yn y degawdau wedi 1800. Er gwaetha'r amrywiadau yn nifer yr ewyllysiau ym mhob cyfnod fe welir fod canrannau gwerth yn newid fesul cyfnod fel a ganlyn: rhwng 1650/1700 mae'r mwyafrif yn disgyn i'r categori gwerth £5 i £50; rhwng 1700/1750 mae'n ymestyn o £5 i £75; rhwng 1750/1800 mae ymestyn ymhellach o £5 hyd at £100; ond yna does dim newid yn y cyfnod dilynol o 1800 ymlaen. Mae canfod y norm yn anodd oherwydd yr oedd cryn wahaniaeth mewn sefyllfa faterol unigolyn oedd â gwerth terfynol ei stad yn £5 a pherson a oedd â chyfanswm ei stad yn £75. Y gwir yw fod yr ystadegau yn cuddio graddfeydd o gynni na chaiff eu cynrychioli yn y golofn dan £5 hyd yn oed, ond a gynrychiolir gan y niferoedd anhysbys a oedd yn rhy dlawd i feddu ar ewyllys yn y lle cyntaf. Yn hytrach, mae'r ystadegau yn dangos gwerth y rhai mwyaf cyfforddus a

chefnog yn y gymdeithas gan brin gydnabod y rhai mwyaf anghenus eu byd. Yn y canol, rhwng y ddau begwn mae'r golofn £5 i £25 yn cynrychioli cyfran sylweddol o'r gymdeithas a oedd yn hofran yn ansicr rhwng graddfa o dlodi a rhyw fesur o lewyrch. Yn y drafodaeth sy'n dilyn fe geisir canfod mwy am strwythurau cynhaliaeth rhai o'r unigolion a gynrychiolir yn y categorïau ariannol a amlinellwyd yn Nhabl 1.

Er hynny mae'n bwysig sylwi mai arian terfynol stad yr unigolyn a geir yn Nhabl 1 sy'n cynnwys yn ychwanegol i'r cyfrif amaethyddol, eitemau megis dodrefn, celfi'r tŷ ac offer ffermio, yn ogystal ag arian dyledion neu arian mewn llaw. Yn Nhablau 2 i 6 dangosir data a seiliwyd yn benodol ar werth amaethyddol 210 o ffermwyr a chanddynt oll, ac eithrio un neu ddau, gyfeiriadau cydnabyddedig yn Arolwg 1768. Mae'n arwyddocaol hefyd fod 42 o'r unigolion hyn wedi'u cynrychioli gan ewyllysiau. Trefnwyd y data i ddilyn maint y sefydliad yn unol â'r wybodaeth yn yr Arolwg ac fe ddsbarthwyd yr anheddau i nifer o gategorïau sy'n cyfateb i fwthyn (<3 acer), tyddyn bach (3-10 acer), tyddyn mawr 10-25, fferm fechan (25 i 50 acer), fferm ganolig (50 i 100 acer), fferm fawr (100 i 200 acer) a fferm anferth (>200 acer) (Williams a Williams – i'w gyhoeddi).

Wrth geisio dadansoddi gwerth y gyfundrefn amaethyddol gellir archwilio'r data mewn un ffordd arall. Fel yr eglurwyd eisoes ceir yn yr ewyllysiau gyfrifon manwl am nifer yr anifeiliaid a oedd ym meddiant pob unigolyn. Trwy gyfrwng y manylion hyn gellir cael brasamcan o beth fyddai maint incwm blynyddol rhai o ffermwyr y fro. Awgrymir mai'r manylion mwyaf perthnasol fyddai prisiau gwartheg stôr a defaid - yr anifeiliaid hynny a gâi eu gwerthu yn flynyddol i greu incwm, ac i raddau llai, werth y gwair a'r cnydau

grawn oedd mewn llaw. Defnyddir hyn fel dull o bennu brasamcan o incwm blynyddol ffermwyr y fro. Dylid cofio wrth wneud hynny y byddai'r cyfrif wedi'i reoli gan nifer yr anifeiliaid mewn llaw ac y byddai'n ddibynnol ar faint y sefydliad oedd yn cynnal y stoc. Gyda'r gwerthoedd hyn mewn llaw gellir archwilio ymhellach natur yr economi amaethyddol ac i wneud hyn defnyddir dosbarthiadau maint y sefydliadau a nodir uchod yn sail i'r drafodaeth.

Yr economi amaethyddol ar waith

Deiliaid y bythynnod

Wrth drafod Tabl 1 cyfeiriwyd at yr hyn nas cynhwysir yn yr ewyllysiau, sef manylion am yr elfen dlotaf yn y gymdeithas, a gynrychiolir yn Arolwg 1768 gan breswylwyr bythynnod oedd heb gysylltiad â thir amaethyddol. Nifer y bythynnod hyn yn yr Arolwg yw 35, sef 16.7% o'r holl sefydliadau a oedd ym mherchnogaeth y Penrhyn. Yn ddaearyddol mae canran uchel o'r bythynnod wedi'u dosbarthu yn bennaf i ardal Tre-garth a chyffiniau Tal-y-bont. Yno maent wedi'u cysylltu â gerddi bychan sy'n llai nag acer mewn maint, a'r mwyafrif wedi'u cywasgu i diroedd gwael ac anhygyrch. Cymerer fel enghraifft, fwthyn Braich¹⁰⁷ ger Tre-garth, a oedd yn ôl yr Arolwg yn gartref i Hugh Cadwaladr, ac wedi'i rannu yn dair uned i gynnwys – Tŷ a'r Gors (2 rhod, 16 perc), Gardd Ŷd (1 rhod, 37 perc) a Criwiau (1 rhod, 8 perc) – y cyfan yn mesur un acer, un rhod a 21 perc. Mae tlodi'r math hwn o sefydliad i'w weld yn ewyllys Morris Pierce, hefyd o Fraich Talog, dyddiedig 1755 a gynhwysai un ceffyl (£1.12s), gwair (£1), 14

dafad a 5 oen (£1.12s), ac eiddo yn y Tŷ (£3). Cyfanswm ei ystad oedd £8.12s sy'n fesur o'r amodau anodd yr oedd deiliaid bythynnod o'r fath yn eu hwynebu. Dengys yr Arolwg fod merched gweddwon hefyd yn ddeiliaid nifer o fythynnod yn ardal Tre-garth a'r Braich ac mae'n anodd gwybod a ydynt wedi cartrefu yno oherwydd eu henaint ynteu a gawsant eu cymell i fyw yno oherwydd eu tlodi. Mae ewyllys Jane Pritchard, Rallt Uchaf, Llandygái, dyddiedig 1805, yn cyfleu meinder y gynhaliaeth – un hen geffyl (£2.2), pedair dafad (16s), tatws (£1.5) a gwair (7s) yn gwneud cyfanswm amaethyddol o £4.10 a chyfanswm terfynol o £5.19. Mae ewyllys Griffith Pritchard, Tre-garth yn 1759 yn rhestru dwy fuwch (£6.5) ac eboles blwydd (£1.1) i roi cyfanswm gwerth amaethyddol o £7.6 a gwerth terfynol o £14.10.6. Yn olaf, ystyrier ewyllys Catherine Roberts o Dal-y-bont yn 1757 sy'n cynnwys ei holl eiddo yn y tŷ â gwerth o £4.6.3.

Mae'n anodd gwybod yn iawn o ba gyfeiriad y deuai enillion blynyddol rhai o ddeiliaid y bythynnod a restrir yn yr Arolwg, a beth fyddai maint yr enillion hynny oni fyddai ganddynt gynhaliaeth ychwanegol megis fel gweision fferm neu lafurwyr. Pur anaml er hynny y ceir manylion personol am amgylchiadau'r ymadawedig yn yr ewyllysiau. O ganlyniad, gellir awgrymu y byddai preswylwyr bythynnod stad y Penrhyn ymhlith aelodau tlotaf y gymdeithas yn Nyffryn Ogwen.

Deiliaid y tyddynnod

Mae mesur gwerth deiliaid tyddynnod yr ardal yn rhwyddach oherwydd nifer ychwanegol yr ewyllysiau sydd ar gael i'w dadansoddi. Nifer y bythynnod yn yr Arolwg

yw 76, sef 36.3% o'r holl sefydliadau a gynrychiolir yn yr Arolwg. Mae manylion perthnasol rhai o'r deiliaid wedi'u cynnwys yn Nhabl 2. Dengys yr ewyllysiau mai gwerth amaethyddol cyfartalog y deiliaid oedd £22, gydag amrediad o bedwar swllt i £77, ond fe hepgorwyd o'r cyfiri terfynol bedair ewyllys oedd â chyfansymiau anarferol o fawr o fwy na £90. Rhoddir sylw pellach i'r pedair ewyllys islaw, ond o'u cyfrif yna byddai'r cyfanswm cyfartalog yn cynyddu i £42.

Mae Tabl 2 yn manylu ar 12 ewyllys sy'n rhoi trosolwg o amgylchiadau deiliaid tyddynnod yr ardal. Mae ewyllys Thomas Edward John o Landygái, er na chofnodwyd ei gyfeiriad yn y plwyf, yn nodweddiadol o amgylchiadau'r deiliaid: mae ei anifeiliaid yn cynnwys buwch a llo, 18 dafad a thri oen a (2?) geffyl, yn rhoi cyfanswm amaethyddol o £12, a gwerth cynnwys y tŷ yn ychwanegu £1.10s at gyfanswm ei ystad. Enghraifft arall, sy'n dyddio o 1755, yw ewyllys Henry Parry o Tŷ'n y Clawdd, Tregarth, tyddyn deg acer o faint. Gwerth amaethyddol y tyddyn oedd £10 yn cynnwys dwy fuwch, un hen geffyl, pedair dafad ac oen, a gwair, haidd a cheirch. Gwerth cynnwys y tŷ oedd £7 gan roi cyfanswm o £17+ i'w holl ystad. Ar ben arall y rhestr (Tabl 3) mae ewyllys Abraham Jones sy'n dyddio o 1780, o'r Parc, tyddyn 14 acer ar gyrion Gwaun Cwys Mai ar lwyfandir plwyf Llanllechid. Yr oedd y gŵr hwn yn berchen ar chwe buwch, dau fustach, chwe heffer, 12 llo a 75 dafad a gwerth £5.17s o wllân, grawn a menyn gan wneud ei gyfanswm amaethyddol yn £77.11s a chyfanswm ei holl eiddo yn £94. 3s. 6c.

Gellir defnyddio'r ewyllysiau i roi brasamcan o werth anifeiliaid y cyfnod. Mae tri pheth yn amlwg yn yr ewyllysiau. Yn gyntaf, gwelir pwysiced oedd presenoldeb gwartheg ym

mhob sefydliad tra bo gwartheg stôr naill ai'n absennol neu'n eithriadol brin yn y cyfrif terfynol. Yn ail, mae amllder, a nifer y lloi yn dra arwyddocaol. Yn drydydd, mae defaid yn bresennol yn y mwyafrif o'r sefydliadau gyda'r diadelloedd yn amrywio o bedair dafad i 74 gydag un ddiadell enfawr y cyfeirir ati yn ddiweddarach. Mae'n amlwg mai'r fuches laeth oedd canolbwynt yr economi gyda'r pwyslais ar gyflawni anghenion y teulu a magu'r lloi. Yn ystod y cyfnod mae pris lloi yn yr ewyllysiau yn amrywio rhwng pymtheg swllt a £1.10s y pen ac, o ganlyniad, mae'n annhebygol y byddai incwm arbennig yn deillio o'u gwerthu. Dan yr amgylchiadau gellir disgwyl y byddai'r lloi'n cael eu gwerthu ymlaen i amaethwyr uwch eu safle ac y byddai'r arian yn cyfrannu'n bitw at yr incwm blyneddol. Ar sail hyn mae modd awgrymu y byddai'r ffynhonnell hon yn ychwanegu uchafswm o £3 pe gwerthid dau lo'r flwyddyn ymlaen i'r farchnad. Pris dau fustach Abraham Jones oedd £4. 1s a phris chwe llo oedd £4. 9s, ac fe fyddai un ddafad oddeutu pedwar swllt sydd yn rhoddi gwell amcan o brisiau'r farchnad yn 1780. Gellir damcaniaethu felly mai pennaf nod pob tyddyn oedd bod yn hunangynhaliol. Mae'n ddiddorol sylwi, er hynny, fod moch yn arbennig o brin yn y cyfrif o gofio bod eu cyfraniad mor amhrisiadwy i economi hunangynhaliol yr ardal yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Nodwedd arall yn rhengoedd y tyddynwyr yw fod nifer o'r deiliaid yn dilyn galwedigaethau ychwanegol. Dengys Tabl 3 rai o breswylwyr tyddynnod ym mhlwyf Llandygái sy'n dilyn galwedigaethau ychwanegol i amaethu ac maent oll yn dyddio o gyfnodau cyn ac yn ystod cyfnod yr Arolwg. Yr oedd Joseph Pritchard yn ofaint yn Llandygái ac yn byw mewn tyddyn 7 acer o faint. Gwerth ei anifeiliaid oedd £9.2s.6c yn

cynnwys dwy fuwch, a mochyn, ac roedd tas o yd a gwair a gwellt yn yr ardd yn ychwanegol yn rhoi cyfanswm o £13.12s.6c. Yr oedd offer yr efail yn werth £10, ei dŷ a'i gynnwys yn £9, arian mewn llaw yn £13 ac arian yn ddyledus iddo yn £7 gan roi cyfanswm cyfforddus i'w holl ystad o £67+. Saer troliau yn Tyddyn Isaf oedd Josiah Mills, ac fe gadwai un fuwch (£5), heffer (£4.5s), a dau geffyl (£9.18s) ar dyddyn 19 acer o faint. Gwerth ei gert, ei gelfi a chynnwys ei dŷ oedd £19, yn cyferbynnu â £19, sef gwerth ei anifeiliaid. Fel y dengys y tabl mae amrediad mawr yng ngwerth materol yr unigolion, yn arbennig rhwng y rhai sy'n dilyn yr un alwedigaeth, megis y llafurwyr a'r gofaint. Yr hyn sy'n gyffredin rhyngddynt, waeth beth fo'u gwerth terfynol, yw bod ganddynt oll ychydig anifeiliaid yn sail i'w bywoliaeth. Mae'n amlwg fod un labrwr, un teiliwr a'r llongwr yn rhoi pwyslais arbennig ar gadw nifer o anifeiliaid, tra bo'r gweddill yn eu defnyddio yn ychwanegol at alwedigaethau eraill. Mae ewyllysiau Joseph Pritchard a Josiah Mills yn cadarnhau'r sylw hwn.

I grynhoi felly, mae'r dystiolaeth uchod yn awgrymu bod amaethwyr mwyaf anghenus yr ardal yn cyfateb i drwch deiliaid y tyddynnod a'u bod megis isaf reng y gyfundrefn amaethyddol. Ond nid pawb o breswylwyr y tyddynnod oedd yn dlawd fel y dengys y data yn Nhabl 4. Ymysg y criw dethol y mae William Williams a oedd yn fesurydd tir, yn awdur ac yn ysgrifennydd i Richard Pennant ac yn un o brif gynllunwyr Chwarel Cae Braich y Cafn (Jones, 1999). Nid tyddynwr cyffredin mohono ef ond yn hytrach, roedd yn ŵr busnes llygadog a'i ddiddordebau entrepreneuraidd yn cwmpasu mwy nag un maes. Ei gartref oedd y Tŷ Mawr yn Llandygái, sef sefydliad o saith uned oedd â chyfanswm o 13 acer o dir yn perthyn iddo, ond bod tair uned o naw acer ar fenthyg gan

y Demesne. Ar ei farwolaeth ei werth amaethyddol oedd £117. 2s, ac er na restrir cyfuniadau ei stoc mae'n bur annhebygol y gallasai tyddyn o 13 acer gynnal digon o anifeiliaid i greu elw o'r maint hwn. Yn yr Arolwg mae gŵr o'r enw William Williams wedi'i gysylltu â nifer sefydliadau amaethyddol yn y ddau blwyf ac mae'n bur debygol mai'r William Williams hwn oedd deiliad rhai o'r sefydliadau hyn gan chwyddo, o ganlyniad, ei ddiddordebau amaethyddol. Wrth gwrs un rhan o'i gyfoeth yn unig a ddeuai o'r ffynhonnell hon gan ei fod hefyd yn berchen siop a gyfrannodd £247. 3s. 6c at ei gyfoeth, ac yr oedd gwerth ei ddodrefn a chynnwys y Tŷ Mawr yn ychwanegu £149.5s.10c_at y cyfanswm. Gwerth William Williams yn ei ewyllys yn 1818 oedd £514.11s. 4c, tipyn yn fwy na chyfoeth gweddill deiliaid cyffredin tyddynnod plwyf Llandygái.

Ac nid William Williams oedd yr unig ŵr ariannog oedd yn ddeiliad tyddyn. Disgrifir Henry Ellis fel 'yeoman' a oedd yn byw yn y Groeslon, un o ddau dyddyn o bump neu wyth acer o'r un enw ar iseldir Llanllechid. Cyfanswm ei werth yn yr ewyllys, dyddiedig 1793, oedd £404.11s. 6c gyda chyfran ei werth amaethyddol yn £342 sef swm gwir anferthol o ystyried maint ei dyddyn. Rhestrir stoc y gŵr hwn fel pedwar ychen, chwe bustach, wyth heffer a phymtheg llo; roedd ganddo werth £60 o ddefaid (amcangyfrif diadell rhwng 250 a 300 anifail), £32 o haidd a £40 o wair. Nid oedd yn berchen ar wartheg ond yr oedd ganddo ddau fochyn a thri cheffyl ac un gaseg. Fe gyfyd y cwestiwn unwaith yn rhagor sut y gallasai sefydliad mor fychan gynnal trefn amaethyddol mor ariannog? Yn y cyswllt hwn nid oes ateb i'r cwestiwn gan nad oedd Ellis yn ddeiliad ar yr un o ddau dyddyn y Groeslon yn 1768 ac nid oes enw cyffelyb yn

yr Arolwg a fyddai'n ei gysylltu ag unrhyw sefydliad arall yn y gymdogaeth. Ond mae un nodyn bach ychwanegol pur ddiddorol sef yn rhestr dyledion y gŵr hwn mae swm o £2.10s 'due to William Williams quarry steward'.

Deiliaid y ffermydd

Trafodwyd eisoes ddosbarthiad daearyddol ffermydd y gymdogaeth. Nodweddir iseldir min Menai gan y tir gorau ei ansawdd a dyma leoliad rhai o ffermydd mwyaf ffyniannus y gymdogaeth. Perthyn i'r ardal hon batrwm anheddu cyson ac fe nodweddir llawer o'r ffermydd gan eu cynlluniau canolog clos mewn perthynas â dosbarthiad y caeau. Mae maint y caeau yn amrywio ac mae mesur cyfran ohonynt rhwng 2 a 5 acer yn gyffredin. Ar ysgwydd ddwyreiniol Dyffryn Ogwen sy'n ymestyn o Aber i Lanllechid a Gerlan, yn ogystal â rhannau sy'n ffinio a chyrion gorllewin Moelyci, mae cyfuniad o ffermydd a thyddynnod yn amlwg yn y dosbarthiad a nifer o'r ffermydd yn enghreifftiau o dyddynnod wedi eu hymestyn gydag ychwanegiad o ffriddoedd eang at y cnewyllyn gwreiddiol. Yn gyffredinol mae ansawdd y tir yn wael mewn rhannau helaeth o'r ardal hon ac fe adlewyrchir hyn yng nghyrhaeddiad ariannol cymharol isel nifer o'r ewyllysiau.

Mae ffermydd bychan yn cyfrannu at 14.8% (31) o sefydliadau'r Arolwg, y ffermydd canolig 16.2% (34) a'r ffermydd mawr 6.2% (13). Deiliaid y ffermydd sy'n cynrychioli'r elfen fwyaf sefydlog yn y gymdeithas ond nid o reidrwydd yr elfen fwyaf ariannog fel y dengys y manylion yn Tabl 5. Mewn 15 o ewyllysiau deiliaid ffermydd bychan y cyfanswm amaethyddol cyfartalog yw £44 ac mae cyfansymiau gwerth yr unigolion yn

amrywio o £5 i £125. O hepgor y swm olaf mae'r swm cyfartalog yn disgyn i £39. Mewn cymhariaeth mae cyfanswm amaethyddol cyfartalog mewn ewyllysiau 22 o deiliaid ffermydd canolig yn £74 gyda'r symiau unigol yn amrywio rhwng £15 hyd at £232. Pe tynnid tair ewyllys gyda chyfansymiau o dros £100 o'r cyfrif olaf yna byddai'r swm cyfartalog yn disgyn i £61. Cynrychiolir ffermydd mawr gan 13 ewyllys ac mae'r cyfanswm cyfartalog yn £132 gyda'r amrediad yn amrywio o £44 i £431, ond pe tynnid y swm olaf o'r cyfri fe fyddai'r cyfanswm yn disgyn i £108. Fel y byddai'r disgwyl ymddengys fod deiliaid ffermydd yr ardal yn fwy cyfforddus yn faterol na'r tyddynwyr, er wrth reswm fod graddfeydd o gyfoeth yn nodwedd amlwg yn y dosbarthiad fel sy'n amlwg yn Tabl 5. Gellir cyfeirio at ewyllys Maurice Owen o blwyf Llanllechid, a gyflwynwyd ar ddechrau'r erthygl, fel enghraifft gynnar yn 1691 o amgylchiadau cyfforddus ffermwr a oedd yn rheng flaenaf yr economi amaethyddol. Nid nad oedd pob ffermwr yn perthyn i'r sector hon ac mae rhai ewyllysiau yn dangos cynni ar ffermydd bychan megis Coed Howel³⁰ a Tanrhiw gyda gwerth amaethyddol y deiliaid yn 1768 a 1799 yn £2 yn unig.

Dengys Tabl 5 yr amrediad mewn gwerth amaethyddol rhwng deuddeg o ffermydd yn yr Arolwg a ddewiswyd i gynrychioli gwahanol rannau o'r ardal - Cilgeraint ar gyrrion Mynydd Llandygái, Corbri a Bronydd ar ysgwydd Llanllechid, Cilfodan yn y Carneddi, Ciltwillan uwchlaw Gerlan, Coed Howel yn nyffryn Afon Cegin, Cororion ar ymyl y gors gerllaw Llandygái, Tyddyn Canol gerllaw y Demesne a'r Fedw, Penybryn a Cefnfaes ar yr allt sydd rhwng yr iseldir a'r tir canol yn Llanllechid. Yn gyffredinol, mae perthynas rhwng maint y fferm a gwerth amaethyddol y deiliad: er enghraifft, gwerth fferm 40 acer

yw oddeutu £70, gwerth fferm 70 acer yw oddeutu £80 a gwerth fferm 100 acer yw oddeutu £100. Mae'n ymddangos felly, os cywir y dadansoddiad, mai'r uned fwyaf cost-effeithiol fyddai fferm 40 acer, a bod y gymhareb yn disgyn mewn perthynas â maint ychwanegol. Wrth gwrs mae eithriadau amlwg i'r dadansoddiad hwn fel y nodwyd eisoes yn Coed Howel³⁰ a Tanrhiw, ac fel sy'n fwy amlwg ym mhen uchaf y rhestr. Gwerth amaethyddol Richard Jones, Penybryn, yn 1785 oedd £404 ar fferm 118 acer o faint, ac roedd ei fuddsoddiad pennaf mewn gwartheg gwerth £239 a 300 o ddefaid gwerth £90. Cymharer hyn â Griffith Evans, fferm Tyddyn Canol, yn 1806: ei werth ef ar uned 87 acer o faint oedd £232 gyda £169 o'i werth wedi' fuddsoddi mewn gwartheg a £120 mewn grawn a gwair.

Mae sylfaen economaidd llawer cadarnach gan ddeiliaid y ffermydd rhagor na'r tyddynwyr, ac mae'r gallu i gynnal mwy o anifeiliaid yn ffactor amlwg yn hynny o beth. Mae'r amrywiadau mewn anifeiliaid hefyd yn elfen ychwanegol bwysig. Ond a ellir canfod cynllun arbennig yn sail i'r gynhaliath? Y nodwedd amlycaf yw'r pwyslais ar fagu anifeiliaid stôr a hynny dros gyfnod o dair blynedd, er nad oedd hyn o fewn cyrraedd pob ffermwr yn y rhestr. Yn y ffermydd sy'n fwy na 25 acer mae prisiau cyfanswm y gwartheg stôr yn amrywio rhwng £10 a £30 gan ddibynnu ar y nifer mewn llaw ac i raddau helaeth ar faint y sefydliad i gynnal y stoc. Felly, ar derfyn y cyfnod fe ellid amcanu at werthu rhwng dau a phum bustach teirblwydd, ac yn yr unedau mwyaf eu maint rai ychen, er y gallasai'r anifeiliaid hyn fod yn anifeiliaid gwaith yn hytrach nag anifeiliaid stôr. Mae heffrod a lloi hefyd yn anifeiliaid ychwanegol a allasai gael eu gwerthu yn flynyddol, er yn y cyswllt hwn fe fyddai'n fwy tebygol fod y pwyslais ar eu

magu yn hytrach nag ar eu gwerthu. Mae'n amlwg felly mai gwerthu'r anifeiliaid stôr fyddai'n cyfrannu fwyaf at greu incwm blynyddol y perchennog. Felly, i Robert Parry, Corbri yn 1770 fe fyddai ei pum bustach yn werth £16; i William John Prees, Coed Howel³¹ yn 1768, gwerth ei ddau fustach fyddai £7 ac fe allasai Ellis Owen, Cefnfaes yn 1802 ddisgwyl £25 am ei pum bustach.

Mae'n llawer annos pennu incwm cyfartalog o werthu defaid ar y farchnad oherwydd meintiau anghyfartal y diadelloedd. Ar lawr gwlad y ddau blwyf mae'r diadelloedd yn eithriadol fychan oherwydd maint cywasgedig y sefydliadau i'w cynnal, ond ar lwyfandir Llanllechid mae'r diadelloedd yn fwy niferus. Roedd yr opsiwn ganddynt i gael mynediad i ffriddoedd agored y mynydd, megis yn achos Richard Edmund, Ciltwillan⁷⁰ neu Richard Jones, Penybryn. Yn yr iseldir felly, ychydig sylltau yn unig a ddeuai o werthu ambell oen ac ychydig wlân , ond yn yr ucheldir fe fyddai'r swm yn cynyddu i rai punnoedd. Er enghraifft , o werthu chwarter diadell o 60 dafad am bedwar swllt y pen fe ellid disgwyl enillion o £6. Mae'n ddiddorol sylwi fod gwlan wedi'i gynnwys yn ewyllysiau William ap Robert, Fedw, a Richard Jones sy'n awgrymu y gellid disgwyl incwm ychwanegol bychan o'r ffynhonnell flynyddol hon.

Sut felly mae cynnig brasamcan o incwm blynyddol deiliaid ffermydd y Dyffryn? I ffermwr bychan mewn sefydliad rhwng 25 a 50 acer gellir awgrymu isafswm o £5.10 ar sail gwerthiant un bustach (£3.10), dau lo (£1) a phum dafad (£1). Bras incwm penodedig ffermwr mewn sefydliad cymedrol ei faint fyddai £12 wedi'i seilio ar sail gwerthu dau fustach (£7), dau lo (£1) ac ugain o ddefaid (£4). Ac i'r ffermwr mewn

sefydliad mawr fe ellir dynodi isafswm incwm o £22.10 ar sail gwerthu tri bustach (£10.10), pedwar llo (£2), 40 dafad (£8) a £2 ychwanegol am ychydig o wllân, tatws a grawn. Yn erbyn y symiau hyn fe ddylid ystyried y rhent blynyddol a delid gan denant i stad y Penrhyn. Yn Cororion²³ rhent John W. Shone ar fferm fechan 28 acer ger cors y Wern Fawr yn 1799 oedd £13, ac ar fferm gyfagos Coed Howel yn nyffryn afon Cegin yn 1796 fe dalai John Williams rent o £31.5s y flwyddyn. Ar y llaw arall mae rhent tri thyddyn a phedair fferm enfawr wedi'u cofnodi, a rhyngddynt maent yn cynnig rhyw lun ar raddfa gymharol. Felly, yr oedd John Morris yn Ciltwillan⁷¹ yn talu £3.50 mewn tyddyn 9 acer ac Abraham Jones £16 mewn tyddyn 14 acer yn ucheldir Llanllechid. Mae rhent anghyfartal dwy o ffermydd enfawr Nant Ffrancon wedi'u cofnodi - yn 1799 fe dalai Maurice Parry yn Tŷ Gwyn £33, ac fe fyddai Abraham Williams yn Blaen y Nant yn 1754 yn talu 'one year's rent due at May last to William Yonge and Colonel Warburton' sef £6.7.6. Y swm a dalai Robert Williams yn Talybraich yn Nant y Benglog yn 1814 oedd £35. Yn Nyffryn Mymbyr yn 1791 rhent hanner blwyddyn Hugh Williams oedd £37.10s, rhent cymedrol ei faint o gofio fod gwerth y brawd hwn ar ei farwolaeth yn £686. O ystyried y symiau hyn fe ellir amcangyfrif y byddai rhent fferm fawr yn yr ardal rhwng £25 a £35 ac ar fferm gymedrol y byddai'r rhent rhwng £15 ac £25. Ond mae rhent Harry Ellis yn nhyddyn y Groeslon yn cymhlethu pob amcangyfrif gan ei fod ar ei farwolaeth yn 1793 yn £50, swm anferthol sydd, o ystyried maint y ddaliadaeth, yn ymddangos yn afresymol. Tybed a oes cysylltiad o fath felly rhwng y rhent a bennid gan y meistr tir ag incwm tybiedig deiliad y denantiaeth, fel mae ewyllysiau Abraham Jones, Hugh Williams a Harry Ellis yn ei awgrymu?

Deiliaid y ffermydd enfawr

Mae ffermydd enfawr yn cynrychioli 9.0% (19) o ffermydd yr Arolwg a gellir archwilio ewyllysiau hyd at 23 o'r deiliaid. Dengys Tabl 6 groestoriad o fanylion perthnasol o 12 o'r ewyllysiau hyn. Cyfartaledd enillion amaethyddol y sefydliadau hyn yw £186 gyda'r amrediad yn amrywio o £52 i £643 ond fe hepgorwyd un ewyllys o £16 o'r cyfrif terfynol. Mae'n anodd pennu amcangyfrif o incwm blynyddol y sefydliadau hyn ond fel isafrif awgrymir swm o £44 wedi'i seilio ar werthu chwe bustach (£21), chwe llo (£8) a 75 o ddefaid (£15).

Mae gan y sefydliadau ddsbarthiad daearyddol pur arbennig - perthyn tair yn unig i iseldir min Menai tra bo'r gweddill yn Nant Ffrancon a Nant y Benglog - ac ni allai'r gwahaniaethau rhyngddynt fod yn fwy amlwg. Y tair fferm yn yr iseldir yw'r Demesne y Penrhyn; Tŷ Newydd yr 'home farm' gyfagos; a Tai'r Meibion a leolwyd ar ffin ddwyreiniol plwyf Llanllechid gan gwmpasu tir yn yr iseldir yn ogystal â nifer o ffriddoedd eang ar y llethr uwchlaw. Deiliad y Demesne yn 1768 oedd Richard Hughes Esq., ac fe allasai ewyllys y bonheddwr hwn fod yn un pur ddadlennol pe byddai wedi'i chynnwys yn yr archif. Hughes oedd ysgrifennydd cyntaf stad y Penrhyn dan arolygiaeth Pennant. Roedd yn ŵr o Fôn, ac yn gefnogwr brwd i William Williams, ei ddirprwy ysgrifennydd, a oedd, fel y nodwyd eisoes, yn ddeiliad tyddyn y Tŷ Mawr yn Llandygái (Jones 1999). Yn 1768 yr oedd gan Hughes denantiaeth nifer o dyddynnod a mân ffermydd ychwanegol yn yr ardal, gan gynnwys fferm fynydd enfawr Glanlligwy yn nyffryn Nant y Benglog. O ganlyniad, bernir y byddai ei ddylanwad amaethyddol yn bur amlwg yn yr ardal, ac yn

wahanol efallai i ddiddordebau mwy entrepreneuriaidd Williams a oedd wedi'u hanelu at chwarelydda, cadw siop yn ogystal â ffermio ar raddfa lai. Y mae un ewyllys o gyfnod ychydig yn ddiweddarach na'r Arolwg wedi goroesi, sef ewyllys Henry Vaughan, deiliad y Tŷ Newydd, a fu farw yn 1803. Yn gyntaf yr oedd ym meddiant y gŵr hwn werth £61 o geffylau, £80 o wartheg a £69 o wartheg stôr, mochyn gwerth £4 a grawn gwerth £30 i gyfrannu at ei gyfanswm amaethyddol o £244. Yn ogystal yr oedd ganddo ddau aradr (£2) a thair og (£3) a chyfarpar ar gyfer chwech o geffylau (£3.9), sy'n pwysleisio pwysigrwydd aredig a thyfu cnydau mewn caeau eang megis Maes Meillionnog (13 acer), Talarau (12 acer) a Maes y Llidiart (16 acer) i enwi ond ychydig o'r caeau mwyaf. I hwyluso ei waith ymhellach yr oedd ganddo ddwy gert (£16) a wagen (£15).

Mae'r gwrthgyferbyniad rhwng ewyllys Henry Vaughan ac ewyllysiau ffermwyr yr ucheldir yn hynod drawiadol. Yn yr ardal hon mae rhannau o fynydd-dir uchaf a mwyaf gerwin Eryri yn Nant Ffrancon, Nant y Benglog a Dyffryn Mymbyr. Yno mae nifer y ffermydd yn fychan, eu dosbarthiad yn wasgaredig a'u tiriogaeth, y tu draw i ffin gyfyng nifer o gaeau bychan gerllaw'r tŷ a'r clos, yn ymestyn i bellafoedd nentydd a dyffrynnoedd yr ucheldir. Mae maint rhai o'r sefydliadau yn anferthol, er enghraifft Tal Braich yn gyfuniad o 1261 acer, Glan Llugwy yn 776 acer, Blaen y Nant yn 963 acer, Pentref yn 1388 acer a Tŷ Gwyn yn gymharol fychan yn 267 acer. Mae'n amlwg fod traddodiad o ffyniant yn perthyn i rai o'r sefydliadau gan eu bod yn ymddangos fwy nag un waith yn y cyfrif er nad yw maint a llwyddiant ariannol bob amser yn cydgerdded yn gyffredin, sylw a gaiff ei drafod yn fanylach yn y man. Fe ellir casglu, gan amled yr ewyllysiau, fod y drefn amaethyddol fwyaf effeithiol yn cael ei gweithredu yn yr ucheldir

hwn, gosodiad arall sy'n haeddu trafodaeth bellach.

Er mor erwin yw tirwedd yr ardal mae'n ymddangos fod y ffermydd yn cynnal cyfartaledd stoc a oedd yn uwch mewn cymhariaeth na'r ffermydd ar diroedd brasach yr iseldir. Cymharer, er enghraifft, fferm 287 acer Rowland Williams, Tŷ Gwyn, Nant Ffrancon yn 1768, â Thalysarn, fferm 110 acer Richard Williams ar lwyfandir Llanllechid yn 1781. Gwerth amaethyddol Tŷ Gwyn oedd £288 yn cynnwys naw buwch, 30 o wartheg stôr, 140 o ddefaid ac ŵyn, chwe cheffyl, tri mochyn a phedair gafr gyda gwerth £34 o haidd a £23 punt o wair yn ychwanegol. Yn Nhalysarn y stoc gyfatebol oedd chwe buwch, 16 bustach a lloi, 40 dafad a saith ceffyl gyda £4 o wair a £7 o rawn yn rhoddi cyfanswm terfynol o £95 punt. Er hynny, yr oedd aflwyddiannau yn Nant Ffrancon fel mewn rhannau eraill o'r ardal fel y dengys ewyllys Pierce Hughes o Maes Caradog yn 1784 a gynhwysai un fuwch a 34 dafad gan wneud cyfanswm ei werth amaethyddol yn £11 ar fferm a oedd yn 642 erw o faint. Fe ellid dadlau fod economi amaethyddol yr ucheldir yn braffach ac yn fwy cost-effeithiol na'r economi gyfatebol a berthynai i lawr gwlad. Pe byddid eisiau cadarnhad pellach o'r ddamcaniaeth ni raid ond edrych ar ewyllys Hugh Williams o Ddyffryn Mymbyr yn 1791, ardal a oedd yn rhan o blwyf Llandygái ond heb ei chynnwys yn yr Arolwg. Gwerth cyfran amaethyddol y gŵr hwn oedd £643 ac fe gynhwysai ei stoc 24 buwch, un tarw, 15 ych, 74 anifail stôr, tri cheffyl a merlen, 750 dafad a 50 gafr. Yn yr un modd yr oedd Ellis Williams, Pentre, Nant Ffrancon yn ffermwr cefnog pan fu farw yn 1803 gyda gwerth ei ystâd amaethyddol yn £435 a'i stoc yn cynnwys 12 buwch, tri anifail stôr a 22 llo, 400 dafad, un mochyn ac un ceffyl a gwair gwerth £40. Cymharer hyn â stoc gyfatebol Henry Vaughan yn Tŷ

Newydd yn yr un flwyddyn oedd yn cynnwys 10 buwch, 14 anifail stôr, 10 ceffyl, un mochyn a gwerth £30 o rawn. Wrth geisio dadansoddi'r data ymhellach mae'n amlwg fod llawer o werth ychwanegol ffermwyr yr ucheldir yn gysylltiedig â bugeilio defaid ac mae maint enfawr rhai o'r diadelloedd yn berthnasol gyda naw ohonynt yn cynnwys mwy na chant, un a mwy na 250 a dwy yn rhifo dros 400 o ddefaid.

Mae'n werth edrych ar ewyllys Robert Coytmor yn 1725 i gael cadarnhad pellach o flaengaredd economi'r ucheldir. Y gŵr hwn oedd perchen stad Coetmor, stad a oedd yn llawer llai na'r Penrhyn fel yr eglurwyd eisoes, ond un â meddiannau helaeth ym mhlwyf Llanllechid. Mae tair adran ddadlennol i'r ewyllys, un yn cyfeirio at gnewyllyn y stad ym mhlasty Coetmor ar lwyfandir Llanllechid (Williams a Jenkins 2010), yr ail yn crybwyll eiddo ar fferm Tŷ'n Hendre yn yr iseldir, a'r drydedd yn rhestru cynnwys y fferm fynydd yn Nhal Llyn Ogwen yn Nant Ffrancon. Yng Nghoetmor fe gynhwysai'r stoc 14 buwch, wyth ych, un anifail blwydd a phum mochyn - y cyfan werth £64 punt, ond coron y sefydliad oedd y ceffylau, o leiaf 24 ohonynt â gwerth o £96, ac un, y 'chesnut stone horse', wedi ei brisio'n unigol i £30. Dyma felly esiampl o gyfoeth uchelwr o dras. Yn Tŷ'n Hendre nid yw nifer cyflawn y gwartheg wedi'u cofnodi, ac eithrio cyfeiriad at bum llo ac un fuwch, ond pris y cyfan, gan gynnwys 'corn chest and old table', oedd £17. Ni wyddys faint y ddau sefydliad uchod yn 1725, nac ychwaith faint y ddaliadaeth yn Nhal Llyn Ogwen. Yno, er hynny, roedd pum buwch, 63 o wartheg stôr yn cynnwys saith ych, wyth bustach, 14 heffer, 13 heffer blwydd, naw bustach bychan a 12 llo blwydd, a chyfanswm ariannol y cyfan oedd £105. Yn ychwanegol yr oedd gan y sefydliad 383 o ddefaid a 74 gafr oedd â gwerth ariannol o £37.5s. Yn dra diddorol mae'r rhestr hefyd

yn cynnwys cyfeiriadau at dair troell, parcel o edafedd, pum tunnell o lo a pharsel o olog, yn ychwanegu £8.4s at werth ariannol y Coetmor o £341.90 yn 1725. Fel y dengys yr ystadegau felly, yr oedd crynswth mwyaf yr arian yn deillio o'r fferm yn ucheldir Nant Ffrancon.

I gadarnhau'r canlyniad ymhellach dylid ystyried pa rannau o'r ardal oedd yn cynnal y nifer fwyaf o ffermwyr ariannog, a beth efallai byddai'r rheswm dros eu dosbarthiad. Yn Nhabl 7 isod rhoddir y sefydliadau sydd â gwerth amaethyddol o fwy na £90 yn y pum categori tyddyn/fferm mewn perthynas ag uchder y sefydliad. Dosberthir y data i dri chategori sef tir dan 150metr, tir rhwng 150 a 250metr a mynydd-dir uwch na 250metr.

Er symled y dehongliad uchod sy'n cadarnhau llwyddiant arbennig ffermwyr yr ucheldir mae'n rhaid pwysleisio fod ffactorau eraill y tu hwnt i ddylanwadau daearyddol yn sicr o chwarae rhan mewn llwyddiant neu aflwyddiant ariannol yn y drefn amaethyddol. Y bennaf ystyriaeth yw y gall dycnwch, dyfalbarhad, ariangarwch a chraffter yr unigolyn fod lawn cyn bwysiced ag ansawdd y tir a photensial yr amgylchfyd. Efallai y byddai Harry Ellis, Groeslon oedd yn werth £404 ar ei farwolaeth yn cytuno â'r gosodiad hwn.

Diwedd glo – cyfundrefn amaethyddol o ffyniant ynteu o fethiant?

Yn y drafodaeth uchod cyflwynwyd darlun pur gryno o gynnwys yr economi amaethyddol yn Nyffryn Ogwen a rhan o fynydd-dir gogledd orllewin Eryri ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Mae'n ddarlun o economi amaethyddol a oedd, yn ôl y dystiolaeth

yn dra dibynnol, os nad yn or-ddibynnol ar fagu gwartheg stôr ond a gyflawnai hefyd ofynion hunan gynhaliaeth yn ogystal. Sefydlwyd mai gwerthiant yr anifeiliaid stôr oedd bennaf gyfrifol am warantu incwm i'r perchennog ac, wrth reswm, yr oedd maint yr incwm wedi ei reoli i rannau helaeth gan faint a llewyrch y sefydliad. Ond cwestiwn arall pur wahanol yw pa mor llwyddiannus oedd y gyfundrefn, o gofio'r feirniadaeth gyson gan haneswyr diweddar am gyflwr bregus amaethyddiaeth Cymru yn ystod y cyfnod dan sylw, megis yng nghyflwyniadau awduron megis Emery (1984) a Williams (1997). Wrth gwrs dengys y dystiolaeth fod llwyddiannau ac aflwyddiannau, fel sydd ym mhob pob cyfnod mewn hanes, ond yn gyffredinol mae'n deg casglu fod y drefn wedi'i haddasu i asio'n llwyddiannus â gofynion amgylchfyd anodd y rhan hon o ucheldir Eryri. Mae'n hawdd beirniadu'r drefn oherwydd diffygion ar ran y tiffeddianwyr a'r amaethwyr fel ei gilydd o ran eu gweledigaeth, eu buddsoddiad, eu cyfalaf, eu medrusrwydd a'u dysg. Eithr nid trefn oedd hon i gynhyrchu grawn a gwenith, sef congilfeini'r gyfundrefn amaethyddol mewn rhannau eraill o Gymru a Phrydain, ond yn hytrach drefn a ymelwai o gyflawnder y borfa las yn Nyffryn Ogwen a rhan o Eryri. Nid oedd y gyfundrefn a ddatblygwyd yn arbennig o lewyrchus efallai ond yr oedd serch hynny, yn eithriadol effeithiol.

Canlyniad amlwg y drafodaeth yw llewyrch ariannol ffermydd ucheldir Nant Ffrancon a Nant y Benglog ac yn hyn o beth mae'r canlyniad yn ategu gosodiad Nia Powell (2007), mewn erthygl ddadlennol ar economi amaethyddol ardal Beddgelert a'r cylch ar derfyn cyfnod y Canol Oesoedd. Yn yr erthygl mae Nia Powell yn dadlau, yn groes i osodiadau'r rhelyw o academyddion Cymreig sy'n portreadu trefn amaethyddol dlawd

yng Nghymru'r cyfnod, fod cyfundrefn ucheldir Eryri yn braffach ac yn fwy cost-effeithiol na'r economi gyfatebol a berthynai i lawr gwlad. Mae'n wir efallai bod ucheldir Beddgelert a Nanmor yn fwy ffafriol i ofynion ffermio mynydd nag ardal gyfatebol Dyffryn Ogwen, oherwydd yno fe geid amodau o dynerwch amgylcheddol yn ymwthio yn ddwfn i'r ucheldir o forfa eang y Traeth Mawr, amodau nas ceid mewn dyffryn cul megis Dyffryn Ogwen a wynebai yn bennaf i gyfeiriad y gogledd. Serch hynny, yr un yw'r canlyniad lle bo maint, cyfartaledd uchel y stoc, traddodiad gwydn o ffermio a chraffter yr amaethwyr yn goresgyn holl amodau anodd yr amgylchedd.

Un o amcanion yr erthygl hon oedd ceisio rhoi gwerth ariannol ar gynhaliaeth flynyddol ffermwyr ardal estynedig Dyffryn Ogwen mewn cyfnod arbennig yn ei hanes ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Yn y drafodaeth cynigir nifer o amcangyfrifon sydd wedi'u seilio ar faint y sefydliad a nifer yr anifeiliaid a oedd mewn llaw. Nodir yn Nhabl 8 sail cyffredinol yr incwm blynyddol hwn a thrwy hynny amcangyfrifir beth fyddai cyfanswm incwm holl ddeiliaid ffermydd stad y Penrhyn. Mewn geiriau eraill dyma'r swm a fyddai'n gyfystyr â gwerth y stoc a werthid yn flynyddol yn yr ardal. Dylid pwysleisio mai amcangyfrif cyfartalog yn unig yw'r crynswth hwn o £1,754 ac mae'n debyg o gyfateb yn agosach at isafswm, yn hytrach nag uchafswm incwm blynyddol yr amaethwyr. Nid oes amheuaeth wrth gwrs am gywirdeb manylion yr ewyllysiau, ond mater arall yw a ellir eu hymestyn i bortreadu yn fanwl gywir economi'r ardal gyfan. Tybed nad oedd cyfundrefn amaethyddol Dyffryn Ogwen ac ucheldir Eryri yn gymaint o feddiant ac mae haneswyr economaidd diweddar wedi ei ddarogan?

Mae'n berffaith amlwg fod y gyfundrefn amaethyddol yn sail i gymdeithas y cyfnod. Roedd hefyd yn cynnal rhai unigolion tra ariannog yn y gymdeithas, pobl a fyddai oherwydd eu cyfoeth yn sicr o fod yn cyfrannu at eu milltir sgwâr, os nad yn ei harwain. Gellir cyfeirio at ewyllys Maurice Owen o blwyf Lanllechid a gyflwynwyd ar ddechrau'r erthygl fel enghraifft gynnar yn 1691 o amgylchiadau cyfforddus ffermwr a oedd yn rheng flaenaf yr economi amaethyddol, ac er nad oes dim yn wybyddus am ei fuchedd fe fyddai'n anodd iawn anwybyddu statws dyn o'r fath yn ei ddydd. A phwy tybed oedd Harry Ellis, Groeslon oedd ag ewyllys gwerth £404, a beth fyddai ei gyfraniad ef i'w gymdeithas yn 1793? Tybed ai porthmon oedd y gŵr ariannog hwn sy'n gymaint o enigma ymysg cyfoethogion ei gyfnod?

Mae mesur cyfraniad goruchwylwyr stad y Penrhyn yn orchwyl llawer haws oherwydd anferthedd eu gweithredoedd yn ystod y cyfnod a ddilynodd Arolwg 1768 hyd at farwolaeth Richard Pennant yn 1808. Hwn oedd cyfnod sefydlu chwarel lechi Cae Braich y Cafn ond dyma hefyd gyfnod pryd y cyflwynwyd newidiadau mawr i'r gyfundrefn amaethyddol dan arolygiaeth Benjamin Wyatt. Penodwyd y gŵr hwn yn 1786 yn asiant a rheolwr cyffredinol stad y Penrhyn er mwyn elwa o'i brofiad fel rheolwr stad amaethyddol fawr yng nghanolbarth Lloegr lle'r oedd gynt yn gyflogedig (Jones ,1981). Yn ystod cyfnod ei ofalaeth diddymodd gytundebau nifer o amaethwyr a chodwyd rhenti eraill ac fe chwalwyd nifer o dyddynnod a man ffermydd yng nghyffiniau'r Demesne. Cyfrannodd Wyatt yn gadarnhaol i adroddiad Gwallter Mechain ar gyflwr amaethyddiaeth yng Nghymru (Davies 1810), ac fe gyflwynodd nifer o argymhellion i wella cyflwr hwsmonaeth ar stad y Penrhyn. Gellir gweld canlyniadau rhai o'r

cyfnewidiadau yn ewyllysiau breision nifer o ffermwyr llwyddiannus yr ardal ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ymysg yr amaethwyr ariannog ceir William Williams, ac er mai deiliad tyddyn bychan iawn oedd ef dengys ei ewyllys pa mor llwyddiannus oedd ei gynhaliaeth amaethyddol. Nodwyd eisoes fod ganddo nifer o ddaliadau ychwanegol yn yr ardal, ac yn arwyddocaol iawn yn 1768 yr oedd ef ynghyd â datblygwyr eraill yn amgáu rhannau o ffriddoedd Coed y Parc. Un o'r ffriddoedd dan sylw oedd ffridd Cae Braich y Cafn, y 175 acer bwysicaf yn yr holl ardal a lleoliad y chwarel lechi a ddatblygodd ar y safle (Williams a Williams, 2011). Er na fu William Williams yn brif asiant stad y Penrhyn fe chwaraeodd ran flaenllaw yn datblygu'r chwarel i'w feistr Richard Pennant ac nid gormodedd yw dweud pa mor ddylanwadol oedd ei ran yn y broses a drawsnewidiodd holl economi a chymdeithas Dyffryn Ogwen yn ystod y deng mlynedd ar hugain a ddilynodd (Jones, 1999).

Yn ystod y cyfnod hwn fe chwalwyd yn llwyr hen ofalaeth amaethyddol Dyffryn Ogwen gan fewnlifiad o gannoedd o chwarelwyr i weithio ac i ymgartrefu yn yr ardal. Yn sgil hyn fe ddatblygodd nifer o sefydliadau pentrefol ym mhlwyf Llanllechid ac ym mhlwyf Llandygái ac fe grëwyd dosbarth newydd o dyddynnod ar gyfer deiliaid a oedd yn cyfuno amaethu rhan amser â gwaith parhaol yn y chwarel. Un o ganlyniadau pwysicaf y datblygiadau hyn oedd bod amaethwyr cynhenid y fro bellach yn cydfyw ochr yn ochr â chymdeithas ddiwydiannol ac, yn raddol, yn gorfod ildio eu safle ar frig yr ysgol gymdeithasol i'r to newydd hwn.

Pwysigrwydd Arolwg 1768 yw ei bod yn dynodi diwedd cyfnod yn hanes Dyffryn Ogwen, cyfnod a berthynai i amaethwyr a fu yn y fro ers cenedlaethau a diwedd hen fyd y Canol Oesoedd. Pwysigrwydd ewyllys William Williams ar y llaw arall yw ei bod yn arwydd o'r newid cymdeithasol enfawr yr oedd ef mor gyfrannog ohono drwy ddatblygu chwarel lechi Cae Braich y Cafn i'w feistr Richard Pennant. Felly, fe ellir nodi fod Arolwg 1768 ac ewyllys William Williams yn pontio diwedd y Canol Oesoedd a dechrau cyfnod modern y Chwyldro Diwydiannol yn Nyffryn Ogwen.

Diolchiadau

Mae'n bleser cael diolch i Einion Thomas a staff Adran Archifau, Prifysgol Bangor, am eu cyfarwyddyd a'u hynawsedd wrth i ni ymchwilio ar gyfer yr erthygl hon. Dymunwn hefyd ddiolch i Andrew Davidson, Prif Archaeolegydd, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, ac Irene Williams am drosi mapiau Arolwg 1768 yn ffotograffau digidol.

J. Ll. W. Williams a Lowri W. Williams

Llyfryddiaeth

Davies, W., (Gwallter Mechain), *General view of the agriculture and domestic economy of North Wales* (Llundain, 1810)

Emery, E. V., 'Wales' yn Thirsk J. (ed) *The Agrarian History of England and Wales 1640-1750. Vi Regional Farming Systems* (Cambridge, 1984). tt.393-428

Hughes. H. D., *Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid* (Bethesda, 1866)

Jones, D. G., *Un o Wŷr y Medra* (Dinbych, 1999)

Peter Ellis Jones, 'The Wyatts of Lime Grove, Llandygái', *Trafodion Hanes Sir Gaernarfon*, 42, (1981), tt.81-116

Kay, G., *General View of the Agriculture of Caernarvonshire* (1794)

Powell, N. M. W., 'Near the margin of existence? Upland prosperity in Wales during the Early Modern Period'. *Studia Celtica* XLI (2007), 137-162

Williams, G. H., 1981, 'Farming in Stuart Caernarvonshire'. *Trafodion Hanes Sir Gaernarfon*, 42, 49-79

Williams, G., 1997 *Wales and the Reformation*. Cardiff

Williams, J.LI.W. a Jenkins, David A. 'Ffos Coetmor, ffos ddŵr gynharaf Dyffryn Ogwen'. *Trafodion Hanes Sir Gaernarfon*, 71 (2010), 10-28

Williams, J.LI.W. a Williams, Lowri W., 'Etifeddiaeth Richard Pennant, Ysw,. yn Nyffryn Ogwen 1768 – gŵr deallus, llygadog ac anturiaethus oedd efe, a bu o fawr fendith i'r wlad hon'. *Trafodion Hanes Sir Gaernarfon*, 72 (2011), 29-53

J.LI.W.W ac L.W.W. (i'w gyhoeddi) – 'Eto yr oedd y wlad yn byw ar ei chynnyrch naturiol er gwell neu er gwaeth' – darlun o economi amaethyddol Dyffryn Ogwen ar derfyn y ddeunawfed ganrif drwy gyfrwng enwau caeau.

Tablau

Tabl 1 - gwerth terfynol cyfran o ewyllysiau o blwyf Llanllechid 1650 – 1850

Cyfnod	Nifer	£0-£5	£5-£25	£25-£50	£50-£75	£75-£100	£100-£125	£125-£150	£150-£175	£175-£200	>£200
1650 – 1700	26 %	3 11.5	7 27.0	7 27.0	1 3.8	3 11.5	2 7.6	0	1 3.8	2 7.6	0
1700 – 1750	46 %	2 4.3	14 30.4	6 13.0	10 21.7	5 10.8	4 8.6	3 6.5	0	1 2.1	1 2.1
1750 – 1800	81 %	3 3.7	16 19.7	8 9.8	15 18.5	19 23.4	6 7.4	3 3.7	3 3.7	2 2.4	6 7.4
1800 – 1850	81 %	1 1.2	10 12.8	11 14.1	8 10.2	23 29.4	1 1.2	3 3.8	5 6.4	2 2.5	14 17.9

Tabl 2 – gwerth amaethyddol deiliaid tyddynnod

enw	Henry Parry	Thomas John	Wm Jones	Evan Parry	Evan Pritchard*	Rolnd Pritchard*	Margt Edwards	Rich Edmund*	Pierce Griffiths	Ellis Evans	Thms Williams*	Roland Williams*	John Morris*
lleoliad	Ty'n y Clawdd	dg	dg	Caerwern	Bryntwrw	Tai Talwriad	Perthi Corniog	Cil Geraint ?	Gelli	Glan Ffryd-las	Aber-caseg	Pen-coed	Cil-twillan
plwyf maint	Lldg 10 acer	Lldg dg	Lldg dg	Lldg 13 acer	Lldg 14 acer	Lldg 19 acer	Lldg 7 acer	Lldg 21 acer	Lldg 24 acer	Llch 18 acer	Llch 13 acer	Llch 17 acer	Llch 9 acer
dyddiad	1755	1777	1785	1752	1772	1783	1797	1772	1799	1799	1805	1782	1770
buwch	2-£6	1-£2	3-£3	3-£5	3-£7.10	5-£17.10	1-£5.10	2-£4	2-£7.10	3-£15	2-£12	4-£4	1-£3 2-£2

bustach	0	0	0	0	0	0	0	2(1)-£3	0	0	0	2-£5	0
ych	0	0	0	0	0	0	0	0	4-£11.10	0	0	0	0
heffer	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1-£2.2
llo	0	1-£1	0	1-12s	0	0	0	2-£1.10	2-£2	1-15s	0	2-10s	1-5s
dafad/oen	5-11s	21-£3.9	0	1-3s	16-£2.8	12+-£2.10	0	0	25-£6.17.6	24-£6	70+-£14	0	21-£5.10
mochyn	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
gafr/myn	0	0	0	0	0	0	0	0	3-12s	0	0	0	0
ceffyl	1-£2.15	£6	0	1-£2.5	2-£3.15	3-£10.18	0	3-£3	1-£1.15	1-£1.11	1-£5	1-£3	0
gwair	12s	0	15s	0	13s	£3	0	0	0	£1.1	0	0	£1.11
grawn	£1.10	0	£1	0	£1.19	£5	0	£2.2	0	0	0	0	0
tatws	0	0	0	0	0	£2	3s.6c	0	0	£1.4	0	0	0
gwlan	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
menyn	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
gwerth amaeth	£11.8	£12.9	£4.15	£8	£16.10	£40.18	£5.13.6	£13.12	£31.4.6	£25.11	£33	£12	£13.8
gwerth cyflawn	£17.4	£13.16	£11.11	£9.12.6	£19.9	£66	£6.8.4	£17.5	£43	£55.9	£45	£17.6	£23.5
rhent	dg	dg	dg	dg	dg	dg	dg	Dg	dg	dg	dg	dg	£3.15

Tabl 3 – gwerth amaethyddol crefftwyr yn byw mewn tyddynnod

enw	Morris Owen	Griff Rowland	Roland Griffith	Joseph Pritchard*	Thms Edwards	Henry Tobias	Josiah Mills*	John Thomas	Wm Owen	Leonard William	Ellis Jones	Henry Morris*
lleoliad	Cil-geraint	Llan-dygái	Llan-dygái	Llan-dygái	Llan-dygái	Lon Isa	Tyddyn Isa	Llan-dygái	Llan-dygái	Tre-garth	Pant y Ffridd	Bryn-llys
maint	dg	dg	dg	7 acer	dg	dg	19	dg	dg	dg	dg	dg
dyddiad	1755	1730	1706	1771	1790	1755	1791	1810	1753	1758	1752	1779

gwaith	labrwr	teiliwr	labrwr	gof	gof	töwr	saer	tafarnwr	labrwr	teiliwr	gwëydd	llong- ŵr
buwch	3- £6.10	4-£7	0	2-£8	2-£4	3-£7.8	1-£5	2-£20	4- £9.4	1-£3	0	5- £14.11
bustach	2-£4	8- £14.10	0	0	0	2- £1.15	0	0	0	0	0	0
heffer	2(1)- £2.2	0	0	0	1-£1.10	0	1-£4.5	0	1- £2.10	1(1)- £1.18	0	0
llo	2-£1	2-£1.4	0	0	0	0	0	0	1-15s	0	0	2-£1
dafad/ oen	5-£1	14-£2.2	90- £7.11	0	0	17- £1.17	0	0	4- £1.18	0	4- 12s6c	0
mochyn	0	0	0	1-£1.2.6	0	1-2s	0	2-£4	0	0	0	0
gafr/ myn	4-10s	3-5s	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
ceffyl	2- £3.10	4-£7	1-2s	0	2-£5.10	2-£4	£2- £9.18	0	1- £1.10	0	0	1- £4.2.5
gwair	0	0	0	6s	0	0	0	£10	0	0	0	0
grawn	0	0	0	£4.4	0	0	0	0	0	0	0	£2.12
gwerth amaeth	£21.12	£31	£7.1	£13.12.6	£5.10	£15.2	£19.3	£34	£15.17	£4.18	12s6c	£29
gwerth cyflawn	£29.2	£37	£7.11	£67.6.6	£34	£19.12	£44.7.6	£85	£18.19	£9.11.6	£3.11.3	£96.7

Tabl 4 – gwerth amaethyddol tyddynwyr ariannog

	William Williams*	Harry Ellis	Huw Rowlands	Richard Williams	Abrahm Jones
Fferm	Tŷ Mawr	Groeslon	Sychnant	Tŷ'n Lôn	Parc
Maint	13 acer	8/5acer	14acer	15cer	14 acer

Dyddiad	1818	1793	1810	1795	1780
buwch	dg	5-£17	3-£20	£10	5-£19
bustach	dg	1(3)-£4.10 1(3)-£3	0	£7.7	2-£4.1 4(1)- £5.10
ych	dg	4-£44	0	0	
heffer	dg	3-£7	2-£10	0	3(2)- £7.12
llo	dg	9-£36 5-£7 5(1)-£19.10	0	0	6-£4.9
dafad/ oen	dg	330-£60.5	32 £11	50-£12.10	75-£13.10
mochyn	dg	2-£4	2-£2	1-£3.5	0
gafr/ myn	dg	0	0	0	0
ceffyl	dg	4-£45.19	£21	£17.16	0
gwair	dg	£40	£15	£9	£15
grawn	dg	£32.6	£15	£14	£2.10
tatws	dg	£6	£9	0	£3
gwlân					£2.10
menyn					17s
gwerth amaeth	£117	£342.10	£104	£74	£77.11
gwerth ychwanegol	£257	0	0	£49	0
gwerth cyflawn	£514	£404.11.6	£138.17	£175	£94.3.6
Rhent	dg	£50.7.6	dg	dg	£16

Tabl 5 – gwerth amaethyddol deiliaid ffermydd

enw	John W Shone*	Rober t Parry*	Thomas Humphr - ey*	Richard Edmund*	Willia m J. Prees*	Thoma s David	John Edward*	Mary Griffith	John M Owen	W ap Robert	Rich Jones*	Owen Ellis
fferm	Cor-Orion	Corbri	Cil-geraint	Ciltwllan	Coed Howel	Cefn y Coed	Bronyd d	Tyddyn Canol	Cil-fodan	Fedw	Pen y-bryn	Cefn-faes
plwyf maint	Lldg 28 acer	Llch 47 acer	Lldg 58 acer	Llch 64 acer	Lldg 74 acer	Lldg 77	Llch 81	Lldg 87	Llch dg	Llch 115	Llch 118	Llch 142
dyddiad	1799	1770	1776	1783	1768	1790	1776	1766	1732	1788	1785	1802
buwch	2?-£6	5-£17	5-£12	5-£16.7.6	5-£17.6	6-£30	5-£16.4	2-£8.8	8-£20	?-£13	15-£67	
bustach	2?-£6	5(3)-£16 2(2)-£7	4-£13	2 -£7 5(1)-£9	2(3)-£7.7 2(2)-£6 3(1)-£5.10	2(1)-£13.10	4(2)-£13 1(2)-£2.3	2-£9 3(2)-£7	4-£8	3-£15 3(2)-£13	26-£111 8(2)-£20	5(3)-£25
ych	0	0	0	2-£7	0	0	0	0	6-£17	3-£28	4-£29	5-£30
heffer	0	0	0	0	0	0	0	1-£3.13	6-£6	0	3-£7.10	5(2)-£20
llo	0	1-10s	3(2)-£6 3(1)-£3	5-£3.13.6	4-£4	7(1)-£9.2	3(1)-£3.10 3(½)-	0	6-£4.10	8-£17.4	7-£10.10	7-£45 5(1)-£15

							£3.3					5(1)- £10
dafad/ oen	0	77	32- £8.16	275+ - £55	16- £3.4 6-18s	22+- £4.8	75+- £14.15	4-12s	40+-£8	118+- £30.7.6	300- £90	115+- £30
mochy n	0	0	0	0	½	0	2-£1.7	1-13s		1-£1	1-10s	1£1
gafr/ myn	0	0	0	0	0	0		0	10+-£1	0	12-£3	0
ceffyl	£10.10	4-£10	3-£3	4-£5.5	3- £15.1 0	3-£25	4-£11.2	1-£4	0	?-£14	10-£29	6-£30
gwair	£6.5	£2.10	0	£3	£6.10	£9	£7.10	£3	0	£12.10	£20	£16
grawn	£5	£2.10	0	0	£20.1 9	£11.16	£13	£17	0	£17.10	£26	£17.12
tatws	0	0	0	0	0	0	0	0	0	12s	£4.16	£1
gwlan	0	0	0	0	0	0	0	0	0	£2	£3	0
gwerth amaet h	£41	£66	£46	£110	£88	£113.2	£91	£60.9	£67.10	£177.1 1	£404	£253.1 8
gwerth cyflaw n	£50.2. 3	£86	£58.16	£121	£105. 9	£127	£104	£74	£107.1 4	£222	£574.1 1	£279.1 2
rhent	£13	dg	dg	dg	dg	dg	dg	dg	rhydd ddeilia d	dg	dg	dg

Tabl 6 - gwerth amaethyddol deiliaid ffermydd enfawr

enw	Maurice Parry	Robt Coytmor	Henry Pierce	Humph Ellis*	Abraham Thomas*	Rowlnd Willam*	Hugh Wms	Rowlnd Wms*	John Wms*	Jane Wms	Owen Parry	William Griffith*
fferm	Tŷ Gwyn	Tal Llyn Ogwen	Tal y Braich	Braich Tŷ Du	Glan Lligwy	Tŷ Gwyn	Dyffryn Mymbyr	Blaen y Nant	Pentref	Gwern y Go	Capel Curig	Tal y Braich
plwyf	NF	NF	NB	NF	NB	NF	DM	NF	NF	NB	NB	NB
maint	267 acer	?	144/30+ acer	468acer	340 acer	267 acer	?	963 acer	1388 acer	866 acer	549 acer	33+ acer
dyddiad	1799	1725	1730	1783	1772	1768	1791	1774	1784	1753	1790	1778
buwch/tarw	9-£25	5	23-£51.19	4-£4	11-£35	9-£40	26-£125.5	14-£47.5	11-£13.10	5-£14	6-£24	7-£25
bustach	0	17	33-£53	0	2-£5.8	30-£100	47-£124	12-£30	5-£22.10	3-£35.	15-£25.10	5-£13.15
ych	4-£28.10	7	0	0	0	0	15-£56.5	0	0	0	0	0
heffer	0	14	?	2-£5.4	0	0	0	2-£5	4-£5	1-£1.14	8-£20	7-£14
llo	4-£3	25 (gwerth y cyfan uchod = £105)	22-£16.10	4-£4.	7-£9.19	?	27-£26.15	5-£5	4-£4	4-£4	8-£9.4	5-£5
dafad/oen	40-£12.10	383-£26.6	170-£35	160-£28	140-£45.10	140-£43	750-£273.10	90-£27	260-£54	80-£16	120-£39	130-£35
mochyn	0	0	0	0	0	3-££2	0	0	0	0	0	1-10s
gafr/myn	0	74-£10.19	30-£3.15	0	10-£1.5	4- 2s	50-£11.5	24-£4	0	44-£5.10	20-£3.10	30-£4.10
ceffyl	6-£12.12	0	8-£20	1-£3.10	1-£7	6-£15	4-£26	1-£2	2-£5	1-£4	4-£15.15	6-£13
gwair	£39	0	0	£4	£8.6	£23	0	£1	£14	0	0	£15
grawn	£5.8	0	0	0	0	£51	0	10s	0	0	0	0
tatws	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

gwlan/ menyn	0	0	0	10s	0	0	0	0	0	0	0	0
gwerth amaeth	£163	£142	£180	£57	£116	£288	£643	£123	£128	£50	£137	£134
gwerth cyflawn	£171	£327	£206	£70	£151	£329	£686	£152	£164	£59	£192.15	£160
rhent	dg	perchen	dg	dg	dg	£26	£75	dg	dg	dg	dg	dg

Allwedd

* - deiliad yn Arolwg 1768

NF – Nant Ffrancon

NB – Nant y Benglog

DM – Dyffryn Mymbyr

dg – dim gwybodaeth

Lldg – Llandygai

Llch – Llanllechid

Gwerth Amaeth – heb gynnwys offer ac eitemau eraill

Tabl 7 – lleoliad 32 ewyllys >£90 mewn perthynas ag uchder tirwedd Dyffryn Ogwen estynedig rhwng 1650 a 1850

sefydliad	<150 metr	150-250 metr	>250 metr
Tyddyn <25 acer	Sychnant Tŷ'n Lôn Groeslon Tŷ Mawr		
Fferm Fechan 25 i 50 acer		Gerlan	
Fferm Ganolig 50 i 100 acer	Talybont Uchaf Cefn y Coed Tyddyn Canol	Ciltwillan70	
Fferm Fawr 100 i 200 acer	Fedw x 3 Penybryn Cefnfaes	Corbri23 Talysarn	

Fferm enfawr >200 acer	Tŷ Newydd (Coetmor)	(Coetmor)	Glan Llugwy Tal y Braich x 4 Tŷ Gwyn x 5 Blaen y Nant Pentref x 2 (Coetmor) -Tal Llyn Ogwen Dyffryn Mymbyr
---------------------------	------------------------	-----------	--

Tabl 8 – Amcangyfrif o isafswm incwm blynyddol ffermwyr ym mhlwyfi Llanllechid a Llandygái yn 1768.

Sefydliad	Sail yr Incwm (yn gyffredinol ar sail yr ewyllysiau)	Gwerth Unigol	Nifer y Ffermydd	Gwerth y cyfan
Fferm Fach 25-50acer	1 bustach @ £3.10 2 lo @ £1.0 5 dafad @ £1.0 amrywion = £0.10	£6	x 31	= £186.10
Fferm Ganolig 50-100	2 fustach @ £7.0 3 llo @ £1.10 20 dafad @ £4.0 amrywion = £1.0	£13.10	x 34	= £459.00
Fferm Fawr 100-200	3 bustach @ £10.10 4 llo @ £2.0 40 dafad @ £8.0 amrywion = £2.0	£22.10	x 13	= £292.10
Fferm Enfawr >200	6 bustach @ £21.0 8 llo @ £4.0 75 dafad @ £15.0 amrywion = £3.0	£43.00	x 19	= £817.00
Cyfanswm			97	= £1,754.00